Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Dyffryn Conwy 2015

Dydd Gwener , 27ain o Chwefror cyhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol yr Ysgol.

Cafwyd diwrnod amrywiol gyda digon o fwrlwm. Yn arwain eleni roedd Osian Roberts - Prif Fachgen , Lois Evans - Prif Ferch ac Elliw Baines , Swyddog Ieuenctid.

Diolch yn fawr i'n beirniad sef Rhiannon Ifan, Beirniad Cerdd a'r Fedal Gyfansoddi , Esyllt Tudur, Beirniad Llefaru ac adran ysgafn , Grace Charles, Beirniad Dawns a Dwynwen Berry, Beinriad Y Fedal Ddrama am eu gwaith yn yr Eisteddfod. Diolch yn fawr hefyd i Myrddin ap Dafydd am feirniadu cystadleuaeth y Gadair eleni i ni.

Agorwyd yr Eisteddfod gan Elliw a cynigwyd 5 pwynt i'r Tŷ oedd yn gwneud y mwyaf o sŵn , i wneud yn siwr fod pawb wedi deffro!! Geirionnydd dderbyniodd y marciau cyntaf yma!

Y Gystadleuaeth gyntaf oedd yr Unawd Offerynnol , roedd ugain yn y rhagbrofion Ddydd Iau cyn yr Eisteddfod , gyda phedwar wedi mynd ymlaen i gystadlu ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Yn gydradd 3ydd Lowri Owen ac Elan Jones , yn 2ail Thomas Taylor ac yn fuddugol Elliw Jones.

Tra oedd y gystadleuaeth hon yn mynd ymlaen yn neuadd yr Ysgol , y gystadleuaeth gyntaf ar lwyfan yr Eisteddfod yn y Neuadd chwaraeon oedd Llefaru i Flwyddyn 10 ac 11 : Etifeddiaeth gan Gerallt Lloyd Owen oedd y darn , gyda Cadi Edwards yn cystadlu a llawn haeddu'r wobr gyntaf.

Roedd pedwar ar y llwyfan yng Nghystadleuaeth Llefaru i Flwyddyn 7 ac 8 , yn llefaru "Hoffi'r Ysgol? Ydw...ond" gan Dorothy Jones. Yn gydradd 3ydd roedd Gruffydd Jones ac Ela Roberts , Yn 2ail Gethin Lloyd , ac Elliw Jones yn fuddugol.

Cystadleuaeth Dawsio i Grŵp oedd nesaf, yn 3ydd Grŵp Geirionnydd , yn 2ail Grŵp Gwydir ond yn fuddugol ac wedi derbyn y darian am yr eitem orau yn yr adran ddawns : Grŵp Crafnant .

Eiry Owen oedd yr unig gystadleuydd yn Llefaru – Hunan ddewisiad i Flwyddyn 12/13 – Bancsi Sion Cwilt oedd y darn , ac Eiry hefyd yn derbyn y darian am yr Eitem orau yn yr adran llefaru.

Dwy fu'n cystadlu yn y Ddawns Unigol Agored , Lara Pyves o dŷ Gwydir yn 2ail a Becky Cash o dŷ Geirionnydd oedd yn fuddugol.

Roedd cynrychiolaeth o'r pedwar tŷ yng nghystadleuaeth y Parti Llefaru , a'r darn oedd 'Pam y creodd Duw Grocrotjis' gan Gwyn Thomas. Darn oedd yn dipyn o sialens! Yn gydradd 3ydd roedd Crafnant a HIraethog , yn 2ail – Gwydir ond Geirionnydd oedd yn derbyn y gwpan i'r Parti Llefaru buddugol.

Eleni roedd cystadleuaeth ysgafn i greu Hysbyseb – dim mwy na 3munud. Ar y llwyfan roedd tri grŵp a'r tri Hysbyseb yn hwyliog iawn! Cafwyd digon o chwerthin! Ymdrech dda iawn gan bawb! Yn 3ydd roedd Hiraethog a'u hysbyseb bwyd ci arbennig , yn 2ail Geirionnydd a'u ap i ddarganfod cariad , ac yn fuddugol Gwydir a'u hysbyseb shampŵ arbennig i wneud i wallt dyfu , ac yn serenu gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 oedd Mr John Roberts y dirprwy!!

Iwan Mainstone ddaeth yn gyntaf am adrodd yn Saesneg i Flwyddyn 8 a 9.

Tuag at hanner amser roedd hi'n amser cyhoeddi'r marciau hyd y pwynt hynny , a fel hyn oedd pethau'n edrych – yn y 4ydd safle oedd Hiraethog gyda 252 o farciau , yn 3ydd efo 299 o farciau – Crafnant , Geirionnydd oedd yn ail efo 314 o farciau ac ar y blaen roedd Gwydir gyda 320 o farciau!

Ymlaen aethom wedyn i gystadleuaeth yr Ensemble lleisiol , hunan ddewisiad gyda rhwng 3 a 10 mewn nifer. Yng ngeiriau'r beiriniad roedd yn gystadleuaeth agos iawn , dim ond dau yn cystadlu , yn 2ail oedd Gwydir ac yn gyntaf , Geirionnydd.

Bu rhagbrawf argyfer cystadleuaeth yr Unwad i Flwyddyn 7 i 9 , braf iawn oedd gweld cymaint yn cystadlu. Yn gydradd 3ydd Lowri Hannah Heap Williams ac Alaw Thomas , yn 2ail Modlen Alun , ac yn gyntaf ac yn ennill y wobr am yr eitem orau yn yr adran gerdd , Sion Dafydd o dŷ Gwydir.

Roedd y pedwar tŷ'n cystadlu yng nghystadleuaeth y Sgets , gyda pawb wedi gwneud ymdrech gyda'u gwisgoedd a'u props! Cafwyd digon o chwerthin yn ystod y gystadleuaeth hon! Yn gydradd 3ydd oedd Gwydir a Crafnant , yn 2ail Hiraethog , ond yn gyntaf gyda'u fersiwn hwy o "Take Me Out" athrawon yr ysgol oedd Geirionnydd!

Yng nghanol bwrlwm y cystadlu bu cyffro yn Seremoni'r Cadeirio a'r Coroni. Osian Roberts oedd yr Archdderwydd ac yn arwain y Seremoni , a Tolly Taylor yn geidwad y Cledd gyda nifer o gynrychiolwyr o'r chweched dosbarth yn yr Orsedd. Rhaid diolch yn fawr i Mr Gwyn Roberts am greu'r gadair fechan yn wobr eleni ac i Miss Alaw Roberts am geu'r goron yn wobr.

Dwy ymgais oedd ar gyfer y Gadair eleni , y dasg oedd ysgifennu darn o Ryddiaith greadigol neu Farddoniaeth yn seiliedig ar y thema "Teithio" a'r beirniad oedd Myrddin ap Dafydd. Cafwyd cerdd a chasgliad o ddyddiaduron gan yr ymgeiswyr. Eleni y gerdd aeth a hi , o dan y ffug enw "Yr Athrawon" ,yn ennill cadair Eisteddfod Ysgol dyffryn Conwy eleni oedd Llywela Edwards o Gerrigydrudion ac yn Nhŷ Gwydir. Mae Llywela yn nisgybl ym mlwyddyn 12 ac yn astudio Cemeg , Bioleg , Mathemateg a Hanes. Ei diddordebau yw chwarae pel-droed , gitar a gwrnado ar gerddoriaeth pop Cymraeg. Mae hi wrth ei bodd yn mynychu Clwb Ffermwyr Ifanc Uwchaled yn ei amser rhydd. Yn y dyfodol mae hi'n gobeithio mynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Cemeg.

Yn ail gyda'i chyfres o ddyddiaduron , Cara Bryn Williams , disgybl arall o flwyddyn 12.

Ac felly ymlaen at ganlyniad y Coroni. Miss Elan Davies fu'n beirniadu gwaith cwrs y disgyblon ac yn fuddugol eleni "Enfys" sef Mirian Rhisiart o Flaenau Ffestiniog. Disgybl ym Mlwyddyn 12 ac yn nhŷ geirionnydd yw Mirain sy'n astudio Cymraeg , Saesneg , Drama a Thechnoleg. Ei diddordebau yw ffasiwn , sgio ac actio. Mae hi'n gobeithio mynd i goleg drama yn y dyfodol a chario'n mlaen i actio.

Llongyfarchiadau mawr!

Rhiannon Ifan fu'n beirinadu cystadleuaeth y Fedal Gyfansoddi ac yn fuddugol "Meryl" sef Rhiannon Elidan Hughes sydd ym Mlwyddyn 12 ac yn nhŷ Geirionnydd. O Landdoged y daw Rhiannon , mae hi'n astudio Cemeg , Bioleg , Mathemateg a Cherdd yn yr ysgol ac yn gobeithio mynd ymlaen i Brifysgol Caerdydd a gweithio ym maes meddygaeth. Cyfansoddodd y darn buddugol er cof am ei Nain.

Yn ail yn y gystadleuaeth Megan Gray sydd ym Mlwyddyn 12 ac yn gydradd drydydd oedd Cara Bryn Williams o Flwyddyn 12 a Cadi Gwyn Edwards o Flwyddyn 10. Llongyfarchiadau i chi gyd!

Dwynwen Berry gafodd y sialens o feirniadu unarddeg darn o waith yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama! Yn fuddugol eleni , Annest Llwyd , disgybl o Flwyddyn 12 ac yn nhŷ Hiraethog. Ma annest yn chwarae rygbi i dim merched Nant Conwy , ac yn aelod brwd o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanrwst. Bioleg , Busnes a Chymraeg mae hi'n astudio yn yr Ysgol ac yn gobeithio mynd ymlaen i Brifysgol Gaer i astudio Gwyddoniaeth anifeiliaid.

Yn ail yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama , Mirian Rhisiart o Flwyddyn 12 (ennillydd y Goron) ac yn gydradd 3ydd Angharad Mair Williams a Heledd Teleri Williams , y ddwy hefyd o flwyddyn 12.

I gloi'r Eisteddfod cafwyd cystadleuaeth y côr! Y gân ddewiswyd oedd "Dyffryn Conwy" wedi ei chyfansoddi gan Angharad Ellis a Chris Roberts . Yn fuddugol roedd Crafnant!

Felly am hanner awr wedi tri daeth yr Eisteddfod i ben a roedd amser cyn rhedeg at y bysiau i gael clwyed y marciau a phwy oedd yn ennill Cwpan Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Dyffryn Conwy 2015…..

Yn 4ydd gyda 386 o farciau : Hiraethog

Yn 3ydd gyda 418 o farcaiau : Crafnant

Yn 2ail gyda 491 o farciau : Gwydir

Ond yn neidio i'r blaen eleni gyda 637 o farciau : Geirionnydd

Llongyfarchiadau mawr i bawb a diolch i bawb am gystadlu!